

Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

Ward Llawfeddygaeth
Gardiothorasig (Ward 6 y
Gorllewin), Ysbyty Athrofaol
Llandochoau, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 01 a 02
Mawrth 2022

Dyddiad cyhoeddi: 07 Mehefin
2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|--|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad | 6 |
| 3. | Yr hyn a ganfuom | 8 |
| | Ansawdd profiad y claf | 10 |
| | Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol | 20 |
| | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth..... | 34 |
| 4. | Beth nesaf? | 45 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu ysbytai | 46 |
| | Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad | 47 |
| | Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith | 48 |
| | Atodiad C – Cynllun gwella..... | 49 |

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cyflawnodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ward Llawfeddygaeth Gardiothorasig (a elwir hefyd yn Ward 6 y Gorllewin) yn Ysbyty Athrofaol Llandochau, sy'n gweithredu o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 1 a 2 Mawrth 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Archwiliodd AGIC y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd y staff yn canolbwyntio ar ofalu am y cleifion ac roedd y cleifion yn teimlo eu bod yn cael gofal da. Dywedodd cleifion wrthym fod ganddynt barch mawr tuag at y staff a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan ymyriadau staff.

Roedd y staff yn gwneud gwaith gofal medrus a thrugarog o dan amgylchiadau heriol. Roedd y staff yn siriol ac yn groesawgar yn ystod ein harolygiad.

Roedd yn ymddangos bod y staff yn cael eu harwain yn dda ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngofal y cleifion.

Fodd bynnag, canfuom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y ward yn cydymffurfio'n llwyr â phob un o'r Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd adborth gan gleifion ynghylch y gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn yn gadarnhaol
- Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus
- Roedd staff yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion
- Rheolaeth dda ar feddyginiaethau
- Roedd staff yn gadarnhaol ar y cyfan yn eu hadborth am eu rheolwyr uniongyrchol ac uwch reolwyr
- Dywedodd staff hefyd eu bod yn ymwybodol o'r strwythur uwch reolwyr o fewn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch reolwyr a staff yn effeithiol ar y cyfan.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynllun a diogelwch cyffredinol y ward, er mwyn sicrhau bod cleifion yn fwy gweladwy a gwella'r ffordd y caiff offer ac eitemau eu storio

- Sicrhau bod y troli dadebru ar gael bob amser, yn ddirwystr ac mewn lleoliad cyfleus ar y ward
- Hyfforddiant gorfodol a chydymffurfiad ag arfarniadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o sefydliadau mwyaf y GIG yn y DU. Mae'n fwrdd iechyd addysgu sydd â chysylltiadau agos â'r sector prifysgolion, ac ar y cyd maent yn darparu hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi tua 14,500 o staff, ac yn gwario tuag £1.4 biliwn bob blwyddyn ar ddarparu gwasanaethau iechyd a llesiant i boblogaeth o tua 472,400 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ar draws de a chanolbarth Cymru ar gyfer ystod o arbenigeddau, ac yn darparu gwasanaethau aciwt, gofal sylfaenol, gofal yn y gymuned ac iechyd meddwl ac anabledd dysgu i oedolion a phlant. Darperir y gwasanaethau hyn drwy ysbytai aciwt, cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, meddygon teulu, deintyddion, fferyllfeydd ac optometryddion.

Mae Ysbyty Athrofaol Llandochau yn ysbyty cyffredinol rhanbarthol sydd wedi'i leoli ym mhentref Llandochau, ar gyrion Caerdydd. Mae ganddo tua 400 o welyau ac mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau strôc, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau orthopedig.

Dros dro, symudwyd y ward llawdriniaeth cardiothorasig i'r ysbyty ym mis Mehefin 2020 er mwyn cynnal gweithgareddau dewisol yn ystod pandemig COVID-19. Roedd hyn oherwydd nad oedd modd cynnal llwybr clinigol gwyrdd ar gyfer y math hwn o lawdriniaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mantais symud i Ysbyty Athrofaol Llandochau oedd sefydlu llwybr gwyrdd gyda mynediad at o leiaf ddwy theatr. Yn ogystal, byddai hyn yn creu gweithlu nyrsio a meddygol dynodedig ar gyfer ardaloedd llawfeddygol gwyrdd yn unol â chanllawiau Coleg Brenhinol y Llawfeddygon a gyhoeddwyd ar 30 Ebrill 2020. Roedd y llwybr yn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â COVID-19, ond roedd angen ynysu cleifion yn llwyr cyn iddynt gael llawdriniaeth. Mae'n darparu llwybr sicr a diogel i gleifion llawfeddygol.

Mae'r ward llawdriniaeth gardiothorasig wedi'i chydleoli â'r uned gofal dwys cardiothorasig yn ogystal â'r theatrau perthnasol. Roedd gan yr uned gofal dwys cardiothorasig wyth gwely, gan gynnwys uned dibyniaeth fawr â phedwar gwely¹.

Roedd gan y ward 24 o welyau wedi'u dosbarthu fel a ganlyn; chwe chiwbicl unigol; dwy uned â dwy ystafell wely; a ward 'nightingale' â 14 gwely wedi'i rhannu'n wyth gwely ar gyfer cleifion benywaidd a chwe gwely i gleifion gwrywaidd.

Mae tîm amlddisgyblaethol yn gweithio ar y ward, gan gynnwys meddygon ymgynghorol, staff meddygol a nyrsio, ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol yn ogystal â staff gweinyddol ac ategol.

¹ Uned dibyniaeth fawr yw ardal mewn ysbyty, sydd fel arfer wedi'i lleoli'n agos at yr uned gofal dwys, lle gellir rhoi lefel uwch o ofal i gleifion nag ar ward arferol, ond nid cymaint â gofal dwys.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd adborth gan gleifion ynghylch y gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd ar y ward.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus.

Gwelsom fod y staff yn ofalgar ac yn sylwgar iawn, yn gwrando ar y cleifion ac yn lleddfu unrhyw bryder ac ofn a oedd gan gleifion am y llawdriniaeth.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr er mwyn casglu eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 13 o ymatebion. Nid atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau. Gwnaethom hefyd siarad â phedwar claf a phedwar o deuluoedd neu ofalwyr cleifion yn ystod yr arolygiad. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn nodi profiad cadarnhaol gan y claf ar gyfer y lleoliad hwn. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Dwi'n hollol hapus yn yr ysbyty a dwi'n cael gwasanaeth ardderchog, diolch i bawb”

“Di-fai”

“Popeth i'r dim”

“Ardderchog ar y cyfan”

“Wedi fy mhlesio'n fawr, gwasanaeth gwych, gwaith gwych”

Cyhoeddodd AGIC arolwg ar-lein hefyd i gael barn staff ar wasanaethau cardiothorasig yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau. Cawsom gyfanswm o 16 o ymatebion gan staff yr ysbyty. Nid atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau.

Cadw'n iach

Diogelu a gwella iechyd

Gwnaethom nodi bod hysbysfwrdd â'r pennawd 'Darllen amdanaf' ar y ward, yn cynnwys cyngor ar fwyta'n iach, golwg a chlyw, symudedd diogel, ymataliaeth a maethiad. Cawsom wybod hefyd fod cleifion yn cael gwybodaeth wrth gael eu rhyddhau am sut i ofalu amdanynt eu hunain ac roedd taflenni, nad oeddent yn cael eu harddangos, ar gael i'w darllen gartref.

Dyweddodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i gadw eu hannibyniaeth cyn belled ag y bo'n bosibl. Dywedodd un claf y gwnaethom siarad ag ef ei fod bellach yn gwybod sut roedd ei ffordd o fyw flaenorol wedi arwain at ei gyflwr ac y byddai'n gwneud dewisiadau gwahanol yn y dyfodol.

Gofal ag urddas


Gofynnwyd i gleifion yn yr holiadur raddio eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Roedd pob un o'r 13 o'r farn bod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Gofynnwyd i gleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Dangosir rhai sylwadau a dderbyniwyd isod:

"Weithiau maen nhw'n dweud wrthyf i y bydda i'n mynd adref ond dydy hynny ddim yn digwydd."

"Roedd angen mwy o olau ar y ward, gan ei bod weithiau'n anodd gwahaniaethu rhwng nos a dydd, gyda ffenestri tywyll a goleuadau ynghyn oherwydd ei bod hi'n dywyll ar y ward."

"Byddai rhagor o fasnau ymolchi a drychau yn yr ystafelloedd, ar gyfer ymolchi ac eillio ac ati, yn lleddfu'r pwysau ar staff."

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i gleifion yn ymwneud â staff, ac roedd eu hymatebion fel a ganlyn:



Roedd staff yn synhwyrol ac yn sensitif wrth siarad â chleifion ac yn parhau preifatrwydd cleifion wrth roi gofal personol. Gwelsom fod llenni o amgylch gwelyau cleifion yn cael eu cau pan oedd angen, gan gynnwys pan oedd staff yn siarad â chleifion.

Er mwyn creu wardiau gwrywaidd a benywaidd ar Ward 6 y Gorllewin, roedd ward yn null Nightingale wedi'i rhannu'n ddwy ran. Roedd y ward i ddynion wedi'i lleoli ar ddiwedd y ward ac roedd yn rhaid i gleifion gwrywaidd gerdded drwy'r ward i fenywod er mwyn cyrchu'r toiledau neu'r cyfleusterau ymolchi.

Dywedodd pob un o'r 16 aelod o staff fod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal. Dywedodd pedwar ar ddeg fod cleifion a'u perthnasau yn rhan o benderfyniadau am eu gofal bob amser, neu fel arfer, a dywedodd dau eu bod weithiau'n rhan ohonynt. Dywedodd pob un o'r 16 aelod o staff fod cynnal annibyniaeth cleifion yn cael ei hybu bob amser, neu fel arfer.

Gwelwyd nifer o gardiau diolch ar waliau'r coridor a oedd yn adlewyrchu pa mor garedig a sensitif oedd y staff tuag at gleifion.

Gwelsom fod y staff yn ddiffwdan wrth roi gofal personol, a bod cleifion yn cael dewis sut i ddiwallu eu hanghenion toiled. Roedd hyn yn cynnwys parch a charedigrwydd staff wrth iddynt drin cleifion, ac roeddent yn groesawgar ac yn gwrtais. Defnyddiodd y cleifion lawer o ansoddeiriau i ddisgrifio staff gan gynnwys:

“Anhygoel”

“Ffantastig”

“Gofal rhyfeddol”

Er bod y ward yn ymddangos yn lân gyda thystiolaeth bod gwaith glanhau yn mynd rhagddo ac arwyddion addas i rybuddio am y llawr gwlyb, roedd ymdeimlad o annibendod mewn rhai ardaloedd o'r ward oherwydd diffyg cyfleusterau storio. Roedd yn anodd symud i lawr y coridor ar adegau, yn enwedig yn achos cleifion â phroblemau symudedd. Fodd bynnag, ni ddywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod hyn yn broblem. Roedd yr ardal o amgylch gwelyau'r cleifion yn rhydd o annibendod a'r botymau galw yn hawdd eu cyrraedd.

Mewn rhannau o'r ward, nid oedd llenni na bleinds dros y ffenestri i amddiffyn urddas cleifion ac atal unrhyw un a oedd yn mynd heibio'r ward rhag eu gweld. Cawsom wybod bod y rhain wedi cael eu harchebu.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn gwneud y canlynol:

- Gwella cynllun y ward, fel nad yw cleifion gwrywaidd yn cerdded trwy ardaloedd ar gyfer cleifion benywaidd, er mwyn sicrhau bod urddas pob claf yn cael ei gynnal
- Darparu cyfleusterau storio ychwanegol i leihau'r annibendod ar y ward yn sylweddol.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd wyth o'r 13 o gleifion a ymatebodd eu bod yn gallu siarad â staff am eu triniaeth heb i bobl eraill eu clywed, a dywedodd pump nad oeddent yn gallu gwneud hyn. Cadarnhaodd pob un o'r 13 o ymatebwyr eu bod yn teimlo fel eu bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth, i'r graddau y maent yn dymuno hynny.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r angen i barchu cyfrinachedd wrth gyfathrebu â chleifion ynghylch gwybodaeth bersonol. Pe byddai'r claf am siarad â'r staff yn breifat, roedd swyddfa'r meddyg ar gael. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn tŷn dawel ac roeddent yn ymwybodol o'r angen i barchu cyfrinachedd.

Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys yn y trafodaethau, wedi cael esboniadau am y driniaeth, a'u bod wedi cael eu trin â pharch. Roedd hyn yn cynnwys cael cynnig ystafell unigol i drafod pryder yn breifat pan oeddent wedi cynhyrfu. Cyfeiriodd un claf at aelod o'r staff nyrsio a oedd yn ei helpu i adfer ei annibyniaeth drwy ei annog, a dywedodd fod ganddo barch mawr tuag at yr aelod hwn o staff.

Nid oedd dolen glyw² ar y ward a oedd yn golygu ei bod yn bosibl na fyddai cleifion sy'n drwm eu clyw yn gallu deall y driniaeth a'r gofal a roddir yn llawn.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i alluogi pob claf i ddeall y driniaeth a'r gofal a roddir yn llawn.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r 15 o gleifion a ymatebodd mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Dywedodd mwyafrif y cleifion y gofynnwyd iddynt nodi eu dewis iaith. Dywedodd mwyafrif y cleifion hefyd fod trefniadau ar waith i ddiwallu anghenion cleifion y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt, er y dywedodd tri nad oedd trefniadau o'r fath ar gael.

Gwelsom fod aelodau o staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn gwisgo'r wisg gyda'r logo 'Cymraeg' wedi'i wnïo arni, i ddangos i'r cleifion eu bod yn gallu siarad Cymraeg â nhw pe dymument wneud hynny. Roedd cyfleusterau ar gael hefyd i ddarparu cyfieithydd pe bai angen.

Gwnaethom siarad â phedwar teulu cleifion dros y ffôn a chawsom wybod ganddynt eu bod yn cael anhawster cyfathrebu â'r claf ar adegau. Dywedodd un teulu fod y staff yn hapus i drosglwyddo'r ffôn i'r claf pan oedd angen, a bod y cysylltiad yn galonogol iddynt. Nid oedd ymweliadau wedi'u caniatáu oherwydd cyfyngiadau COVID-19 a'r angen i gynnal yr amgylchedd fel parth clinigol gwyrdd. Fodd bynnag, dywedodd y teulu bod staff wedi cadw mewn cysylltiad yn gyson a'i fod wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf ganddynt am yr hyn oedd yn digwydd pryd bynnag y câi'r claf ei symud ac os bu unrhyw newid yn ei gyflwr. Dywedodd un teulu y gwnaethom siarad ag ef fod y staff wedi bod yn barod iawn eu cymorth, gan gynnwys cyfarfod â nhw y tu allan i'r ward i dawelu eu gofidion oherwydd bod y claf wedi'i dderbyn ar frys.

² Mae dolen glyw (a elwir weithiau yn ddolen sain) yn fath arbennig o system sain i'w defnyddio gan bobl sy'n defnyddio cymhorthion clyw. Mae'r ddolen glyw yn darparu signal magnetig, diwifr sy'n cael ei dderbyn gan y cymhorthyn clyw pan gaiff y gosodiad 'T' (Telecoil) ei ddewis.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth ar ffurf y gallent ei deall. Cawsom wybod ganddynt eu bod yn teimlo bod staff yn eu cefnogi drwy gydol y triniaethau a'u bod yn gallu gwneud penderfyniadau o ganlyniad. Dywedon nhw fod yr holl staff wedi bod yn garedig iawn ac yn barod eu cymwynas. Mynegodd un claf y cysur a gafodd o wybod bod staff wedi treulio amser yn siarad â'i deulu. Dywedodd teuluoedd hefyd eu bod yn gwerthfawrogi lefel y cyfathrebu a gynigiwyd ac yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Dywedodd un teulu ei fod wedi cael sicrwydd o allu siarad â nyrsys staff, uwch nyrsys, meddygon, llawfeddygon ac anesthetyddion.

Er bod arwyddion dwyieithog yn y prif goridor, prin oedd y dystiolaeth o gyfieithu Cymraeg ar arwyddion y ward. Yn ogystal, nid oedd gwybodaeth wedi'i harddangos am y staff ar y ward megis hysbysfwrdd 'Pwy yw pwy'. Rhaid i'r bwrdd iechyd osod hysbysfwrdd 'Pwy yw Pwy' ar y ward fel bod cleifion, perthnasau a gofawyr yn gallu adnabod staff, a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod trefniadau ar waith i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig ar fyrddau arddangos ac arwyddion yn Gymraeg a hynny ar sail gyfartal â'r Saesneg
- Gosod hysbysfwrdd 'Pwy yw pwy' ar y ward.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Pan oedd angen cymorth ar gleifion, dywedodd cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn ymateb yn brydlon ac yn amserol. Cytunodd pob un o'r 13 o gleifion a ymatebodd i'r holiadur fod botwm galw o fewn eu cyrraedd bob amser er mwyn gwneud staff yn ymwybodol bod angen eu sylw arnynt. Roedd yr holl gleifion a atebodd y cwestiwn, namyn un, yn cytuno bod staff yn dod atynt pan maent yn defnyddio'r botwm galw am gymorth, a nododd un yr ateb 'amherthnasol'. Roedd y ward yn ymddangos yn brysur iawn yn ystod ein harolygiad, ond gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion a gwaith tîm da ymhlith y staff.

Credwn o'n harsylwadau y gallai fod yn anodd gweld rhai cleifion oherwydd cynllun y ward ond, ar yr un pryd, roedd y cleifion a oedd wedi'u cysylltu â'r offer perthnasol yn cael eu monitro yng ngorsaf y nyrsys. Gwelsom hefyd fod rhai

aelodau o staff yn aros ym mhen draw'r ward gyda'r cleifion. Yn ogystal â hyn, er bod modd cloi prif ddrysau'r ward gyda mynediad â chod o'r tu allan, a mynediad â botwm gwthio o'r tu mewn, gwnaethom nodi y gellid agor y drysau heb ddefnyddio'r dulliau hyn.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod cynllun y ward yn cael ei wella er mwyn sicrhau bod yr holl gleifion ar y ward yn weladwy
- Bod drysau mynediad a drysau allanfeydd wedi'u diogelu ac mewn cyflwr gweithio da.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur, namyn un yn cytuno, pan oedd angen iddynt fynd i'r toiled, fod staff yn rhoi dewis iddynt ynghylch y dull y maent yn ei ddefnyddio, a nododd un yr ateb 'amherthnasol'. Cytunodd yr holl gleifion perthnasol fod staff yn eu helpu gydag anghenion toiledau mewn ffordd sensitif, fel nad ydynt yn teimlo embaras na chywilydd. Gwelsom enghraifft hefyd pan oedd y dull amlddisgyblaethol yn amlwg, pan wnaeth ffisiotherapydd helpu claf i ddiwallu ei anghenion toiled.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau y byddai gorchymyn Na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR)³ yn cael ei drafod. Cawsom wybod y byddai staff meddygol yn siarad â'r teulu a'r claf yn breifat, gyda nyrsys yn gweithredu fel eiriolwyr i'r cleifion a'u teuluoedd. Câi statws cleifion â gorchymyn Na cheisier dadebru cardio-anadlol ei drafod yn ystod sesiynau briffio diogelwch ac ar adeg trosglwyddo gwybodaeth rhwng staff. Nid oedd unrhyw un o'r cleifion ar y ward o dan orchymyn Na cheisier dadebru cardio-anadlol ar adeg yr arolygiad.

Nodwyd hefyd, er gwaethaf y ffaith bod cleifion wedi cael llawdriniaeth fawr, eu bod yn ymddangos yn hapus, yn gyfforddus, yn symudol a'u bod yn cael eu

³ Mae gorchymyn Na cheisier dadebru cardio-anadlol yn golygu, os yw'ch calon yn stopio neu eich bod yn stopio anadlu, na fydd eich tîm gofal iechyd yn ceisio ei ailgychwyn.

rheoli'n dda. Roedd cleifion yn cael eu hannog i fod yn egnïol a rhoddwyd yr offer perthnasol iddynt i gerdded a symud. Roedd y ffisiotherapyddion a welsom ar y ward yn gefnogol ac yn gweld y cleifion yn ddyddiol. Nodwyd bod therapyddion galwedigaethol ar y ward hefyd ac roedd tystiolaeth o ddull tîm amlddisgyblaethol o ofalu ac adsefydlu cleifion.

Gwnaethom wirio sampl o gofnodion gofal ar gyfer pedwar claf o blith y rhai oedd ar y ward ar y pryd. Roedd y gofal a roddwyd wedi'i ddogfennu'n glir yng nghynlluniau gofal y cleifion. Roedd cynlluniau gofal yn seiliedig ar anghenion unigoleddig y claf ac roedd yr holl anghenion unigol perthnasol wedi'u nodi. Roedd tystiolaeth glir o drosglwyddo gofal a chynlluniau rhyddhau, mewnbwn y tîm amlddisgyblaethol, a rhestr wirio cyn rhyddhau. Cafodd manylion am amgylchedd y cartref eu nodi mewn asesiad cyn llawdriniaeth er mwyn hwyluso'r cynlluniau rhyddhau. Roedd gofal yn cael ei gynllunio mewn ffordd a oedd yn hybu annibyniaeth; roedd y nodau'n adlewyrchu pwysigrwydd bod yn annibynol unwaith eto ar ôl llawdriniaeth.

Hawliau pobl

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd yr arolwg eu bod yn teimlo y gallent gyrchu'r gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (beth bynnag fo'u hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Ni nododd unrhyw ymatebydd achos o gamwahaniaethu wrth gyrchu'r gwasanaeth iechyd hwn neu ei ddefnyddio (ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig).

Roedd ymweliadau wedi'u cyfyngu ar adeg yr arolygiad, a dim ond yn achos cleifion diwedd oes y câi ymwelwyr eu caniatáu. Cawsom wybod y gallai cleifion ffonio eu perthnasau neu ofalwyr a gwneud fideoalwadau iddynt. Dywedwyd wrthym hefyd fod ymwelwyr wedi dod at y ffenestri y tu allan i'r ward i weld perthnasau os oeddent wedi bod yn y ward ers cryn amser. Fodd bynnag, cawsom wybod bod yr iPad a fu ar gael ar y ward i gleifion ei ddefnyddio i gysylltu â pherthnasau neu ofalwyr ar goll.

Roedd yn ymddangos bod y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn derbyn y ffaith nad oedd ymweliadau'n cael eu caniatáu, ond bod hyn wedi bod yn anodd iawn iddynt yn emosiynol. Yn ogystal, dywedodd cleifion fod diffyg setiau teledu a fyddai'n atal y diflastod ar y ward. Dywedodd cleifion fod staff wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i gyfyngu ar effaith y trallod emosiynol hwn a'u bod yn cydymdeimlo â chleifion ac aelodau o'r teulu ac yn garedig iddynt. Dywedodd un claf fod y staff wedi treulio amser yn eistedd ac yn siarad ag ef, a bod hyn wedi bod yn galonogol iddo.

Roedd peidio â gallu ymweld â'r claf yn anodd i'r teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw hefyd, ond roeddent yn teimlo bod y staff wedi eu cefnogi gyda hyn. Fodd

bynag, fe'u cyngorwyd i ffonio'r ward pryd bynnag y dymument, a rhoddwyd y rhif ar gyfer llinell uniongyrchol y ward iddynt.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael mynediad ychwanegol at offer sy'n gydnaws â'r rhyngwyd er mwyn eu galluogi i gysylltu â'u perthnasau neu ofalwyr.

Gwrando a dysgu o adborth

Cytunodd deuddeg o'r ymatebwyr o blith y staff fod adborth ar brofiad y cleifion yn cael ei gasglu o fewn eu cyfarwyddiaeth neu eu hadran, ac nid oedd pedwar yn gwybod. Gwnaethant nodi eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch yr adborth ar brofiad defnyddiwr y cleifion, nododd dau nad oeddent yn cael hwn, a nododd dau nad oeddent yn gwybod. Nododd deg ymatebydd fod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus o fewn eu cyfarwyddiaeth neu eu hadran, ac nid oedd chwech yn gwybod.

Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o unrhyw gwynion diweddar na chyfredol, a dywedon nhw y byddent yn cynorthwyo pobl os oeddent am gwyno. Nodon nhw fod y sylwadau gan gleifion yn canmol yn gyffredinol, a'r brif broblem oedd y diffyg ymweliadau.

Dywedodd y staff hefyd pe byddai pryder neu gŵyn, y byddent yn ceisio delio â'r mater ar lefel ward tra bod y claf yn dal i fod yn yr ysbyty. Byddai'r mater hefyd yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r claf. At hynny, dywedon nhw pe bai'r claf yn dymuno mynd â'r mater ymhellach na'r cam Gweithio i Wella⁴ fod taflen ar gael ar y ward. Ni welsom y daflen hon yn cael ei harddangos ar y ward, ac ni wnaethom nodi unrhyw gyfeiriad at Gyngorau Iechyd Cymuned.

Gwnaethom nodi bod hysbysfwrdd â'r pennawd 'Sut rydyn ni'n ei wneud' y tu allan i'r Uned Gofal Dwys Cardiothorasig, a oedd wedi'i chydleoli â'r ward, a oedd yn cyfeirio at faterion a godwyd ac ymatebion gan staff. Ar yr hysbysfwrdd roedd cyfeiriad at glaf a oedd wedi mynegi pryder am y lefelau sŵn yn y nos oherwydd bod y biniau'n cael eu hagor a'u cau. Mewn ymateb, gwelwyd o'r hysbysfwrdd

⁴ <http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella>

bod staff wedi trefnu bod plygiau clust a masgiau llygaid ar gael a bod caeadau sy'n cau yn araf wedi'u gosod ar finiau.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am sut i wneud cwyn yn cael ei harddangos ar y ward a'i bod ar gael i'r cleifion.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwnaethom nodi bod trefniadau effeithlon ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau, a chwblhawyd gwiriadau gorfodol ar offer dadebru. Canfuom fod tîm y staff wedi ymrwymo i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd y cofnodion gofal wedi'u cwblhau i safon dda. Roedd y cofnodion yn dangospam y gwnaed penderfyniadau, roeddent yn glir ac yn gyfredol, wedi'u hysgrifennu ar yr un pryd ac yn hawdd eu darllen.

Roedd y wardiau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, yn lân ac yn daclus, ac roedd trefniadau ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, roedd y ward yn anniben oherwydd diffyg lle i storio pethau.

Gwnaethom nodi nifer o welliannau, gan gynnwys diogelwch y ward a diogelwch cofnodion cleifion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r broses sydd ar waith ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau, gan gynnwys digwyddiadau o bwys. Roedd hyn yn cynnwys gwneud cofnod o'r digwyddiadau ar Datix, y system electronig ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau. Câi'r digwyddiad ei ymchwilio, ac yna, unwaith y byddai'r ymchwiliad wedi'i gwblhau, câi cynllun gweithredu ei roi ar waith, a châi'r hyn a ddysgwyd o'r digwyddiad ei rannu.

Cawsom nodyn briffio a gyflwynwyd i grŵp rheoli strategol y bwrdd iechyd. Roedd hwn yn ymwneud â'r gofyniad i adleoli llawdriniaethau cardiothorasig i Ysbyty Athrofaol Llandochau dros dro er mwyn sicrhau y gellid parhau i gynnal gweithgareddau dewisol yn ystod y pandemig. Roedd y nodyn briffio yn cynnwys asesiad a goblygiadau o ran risg. Roedd manteision safle Ysbyty Athrofaol Llandochau yn cynnwys y gallu i sefydlu llwybr gwyrdd yn gyflym, gyda mynediad

at o leiaf ddwy theatr ac adfer llawdriniaethau cardiothorasig mewn modd cadarn. Rhestrwyd y risgiau a'r mesurau lliniaru hefyd.

Roedd ffurflen asesiad risg hefyd yn ymwneud ag adleoli llawdriniaethau cardiothorasig i Ysbyty Athrofaol Llandochau dros dro er mwyn sicrhau y gellid parhau i gynnal gweithgareddau dewisol yn ystod y pandemig. Un o'r rheolaethau a restrwyd oedd gweithio ar draws safleoedd ar ddiwrnodau pan oedd angen gosod rheolydd calon parhaol ar ôl llawdriniaeth. Cawsom wybod bod risg ynghlwm wrth orfod symud cleifion rhwng y ward yn Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Ysbyty Athrofaol Cymru, pan oedd angen gwneud hynny, ac roedd hyn yn cynnwys aciwtedd y claf ac a oedd cerbyd ar gael. Lliniarwyd hyn drwy sicrhau bod staff perthnasol cymwys ar gael i deithio gyda'r claf. Roedd hyn hefyd yn rhan o gydbwyso'r risg yn erbyn y manteision o'r symudiad i Ysbyty Athrofaol Llandochau.

Roedd y ward yn hygyrch ac yn hawdd dod o hyd iddi gyda mynediad i bobl ag anableddau a chyfleusterau ar gyfer pobl ag anawsterau symudedd. Roedd yr amgylchedd yn ymddangos yn lân. Roedd arwyddion amlwg ym mhrif ardal y ward, ond ymddangosai fod llawer ohonynt yn arwyddion papur dros dro, a'r rheini yn Saesneg yn bennaf. Roedd gan bob gwely ddigon o offer gyda chadair freichiau mewn cyflwr da.

Roedd clo diogelwch ar gwpwrdd y glanhawyr ac roedd hylifau fflamadwy a gel alcohol yn cael eu cadw mewn cwpwrdd arbennig. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod y cypyrddau yn yr olchfa (cwpwrdd melyn ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)) sy'n storio hylifau glanhau, ar agor ac yn cynnwys tabledi glanhau a fyddai'n achosi niwed pe baent yn cael eu llyncu.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cypyrddau sy'n storio hylifau glanhau (cwpwrdd melyn ar gyfer rheoli sylweddau peryglus i iechyd) yn yr olchfa, wedi'u cloi i atal mynediad, neu fod eitemau a allai achosi niwed pe baent yn cael eu llyncu yn cael eu tynnu ymaith o'r cwpwrdd.

Atal niwed pwyso a niwed i feinwe

Cadarnhaodd y sampl o gofnodion gofal ar gyfer pedwar claf a gafodd eu hadolygu fod asesiadau risg o fannau pwyso wedi'u cwblhau gan ddefnyddio offeryn asesu nyrso cydnabyddedig. Gwelsom hefyd fod cofnodion monitro wedi'u cwblhau, a oedd yn dangos y cynhaliwyd archwiliadau rheolaidd o groen cleifion, gan chwilio am arwyddion o niwed pwyso. Roedd cofnodion monitro a oedd yn dangos bod cleifion wedi cael eu cynorthwyo neu eu hannog i newid eu hosgo yn y gwely, neu mewn cadair freichiau, yn rheolaidd. Gwelsom staff hefyd

yn cynorthwyo ac yn annog cleifion i symud o amgylch y ward. Mae'r ymyriadau hyn yn helpu i leihau nifer y cleifion sy'n datblygu briwiau pwysu.

Gwnaethom siarad ag aelod o staff hefyd a oedd yn gallu disgrifio'r asesiad a'r adolygiadau rheolaidd, yn ogystal â phryd i atgyfeirio achosion at y nyrs hyfywedd meinwe.


Roedd matresi lleddfu pwysau ar gael gyda'r pymphiau perthnasol i leihau'r posibilrwydd o niwed pwysau a niwed i feinwe.

Atal cwympiadau

O'r sampl o gofnodion gofal cleifion, canfuom fod asesiadau'n cael eu cynnal wrth dderbyn cleifion i'r wardiau, er mwyn helpu i leihau'r risg o gwympo. Roedd tîm eiddilwch a thîm cwympiadau arbenigol hefyd ar gael i roi cyngor ac i ymyrryd yn y prif ysbyty. Roedd yr asesiadau'n glir ac wedi'u cwblhau'n dda, ac roedd y defnydd o reiliau gwely wedi'i ddogfennu'n dda hefyd. Cawsom wybod bod archwiliadau o gwympiadau yn cael eu cyflawni a oedd yn dangos cydymffurfiaeth o gant y cant.

Atal a rheoli heintiau

Dywedodd pob un o'r 13 o gleifion a ymatebodd fod y lleoliad yn lân iawn a bod mesurau rheoli heintiau COVID-19 yn cael eu dilyn pan fo hynny'n briodol. Dywedodd pob un o'r aelodau staff a ymatebodd, namyn dau, fod y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn bob amser neu'n cael eu dilyn fel arfer, a dywedodd dau eu bod yn cael eu dilyn weithiau. Atebodd pymtheg aelod o staff gwestiynau am fesurau rheoli heintiau sy'n cydymffurfio â rheoliadau COVID-19 fel a ganlyn:



Gwnaeth un aelod o staff y sylwadau canlynol:

“Dyw nwyddau ddim yn cael eu cludo i Landochau yr un mor aml ag i Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae gennym ni gyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar y cyfan, ond weithiau gall archebion am stoc arall gymryd hyd at wythnos neu fwy i gyrraedd. Dydy hi ddim mor hawdd benthycu o wardiau eraill oherwydd ein bod yn barth gwyrdd. Mae yna rai dyddiau/ amseroedd pan y gallwn ni archebu cyfarpar diogelu personol i’w danfon y diwrnod nesaf, sy’n dda.”

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol yn hygyrch, wedi’i storio’n briodol ac yn cael ei newid rhwng cleifion. Gwelwyd staff yn arfer hylendid dwylo cywir ac roedd gan bob un o’r cleifion hylif diheintio dwylo wrth ochr eu gwelyau. Roedd offer a rennir a dyfeisiau meddygol y gellir eu haildefnyddio wedi’u diheintio’n briodol.

Roedd yn ymddangos bod y ward mewn cyflwr da i hwyluso’r gwaith o’i glanhau yn effeithiol. Roedd yr ystafelloedd ymolchi a’r toiledau yn edrych yn lân. Roedd ciwbiclau oren ar gael ar gyfer ynysu cleifion yn ôl yr angen. Gwnaethom nodi fod blychau ar gyfer eitemau miniog yn cael eu gwaredu’n briodol. Gwelsom staff domestig yn glanhau’r ward yn rheolaidd hefyd ac roedd y ward yn ymddangos

yn lân. Cawsom dystiolaeth o Ddull Monitro Glendid Cymru Gyfan – Credydau Glanhau⁵, a ddangosai gydymffurfiaeth dros 98 y cant ar gyfer y ward.

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o reoli heintiau a sut yr oedd yn effeithio ar eu rôl. Roeddent hefyd yn gwybod sut i gael mynediad at y polisi rheoli heintiau. Yn ogystal â hyn, roeddent yn gallu disgrifio'u dull hylendid dwylo a beth i'w wneud yn dilyn anaf â nodwydd. Er bod y ward wedi agor yn ystod y pandemig, gwnaethom nodi bod pob aelod o staff yn gwisgo masgiau a chyfarpar diogelu personol priodol, a gwelsom staff yn gwisgo ac yn dadwisgo⁶ cyfarpar diogelu personol yn briodol. Gwelsom hefyd fod staff yn defnyddio'r protocol a'r cyfarpar diogelu personol priodol pan oedd gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol ar waith⁷.

Roedd yn ofynnol i gleifion hunan-ynysu am ddeng niwrnod cyn llawdriniaeth a rhoddyd prawf canlyniad cyflym iddynt i wirio am COVID-19 wrth gael eu derbyn i'r ward. Cawsom wybod nad oedd unrhyw gleifion wedi dal haint o ganlyniad i dderbyn gofal iechyd ar y ward. Cynhaliwyd ymchwiliad i'r unig achos a gafwyd yn ystod y tri mis diwethaf a chanfuwyd bod yr haint wedi'i ddal yn y gymuned.

Er bod canlyniadau archwiliadau'r uned gofal dwys cardiothorasic wedi'u harddangos ar yr hysbysfwrdd ger yr uned, ni welsom y canlyniadau ar gyfer y ward cardiothorasic yn cael eu harddangos.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod canlyniadau archwiliadau'n cael eu harddangos ar y ward er mwyn rhoi hyder i gleifion a staff ynghylch glendid y ward.

⁵ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/254/2011%20Issue%2012%20FM%2002.pdf>

⁶ Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; Tynnu – tynnu cyfarpar diogelu personol.

⁷ Diffinnir gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol fel unrhyw weithdrefn feddygol a gofal cleifion sy'n arwain at gynhyrchu gronynnau yn yr aer (aerosolau). Gall gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol gynhyrchu gronynnau yn yr awyr sy'n llai na 5 micrometr (μm) o faint a all barhau i fod yn yr aer, teithio dros bellter ac achosi haint os cânt eu hanadlu.

Maeth a hydradu

Roedd y sampl o gofnodion gofal cleifion yn dangos bod asesiad risg maethiad wedi'i gwblhau ar gyfer yr holl gleifion o fewn 24 awr i'w derbyn, a bod siart cofnodi bwyd wedi'i chwblhau os oedd angen. Cwblhawyd siartiau cydbwysedd hylif yn ôl yr angen. Roedd cyfarwyddiadau clir ynghylch hylif a diet a oedd yn cael eu hasesu'n rheolaidd. Gwnaethom nodi canllawiau clir ar y meini prawf ar gyfer atgyfeirio achosion at y dietegydd ac roedd siart pwysau'n cael ei chynnal i fonitro'r cynllun. Roedd llyfryn gofal integredig a oedd yn cynnwys cynllun gofal y geg. Defnyddiwyd offeryn sgrinio risg maeth.

Gwelsom staff arlwygo yn gweini'r bwyd i'r cleifion, a byddai'r staff yn hysbysu'r arlwywr am unrhyw broblemau. Roedd bwyd yn cael ei weini'n brydlon ac roedd yn ymddangos bod perthynas dda rhwng y staff arlwygo a'r cleifion. Gwelsom hefyd fod prydau cleifion wedi'u gorchuddio cyn eu defnyddio.

Roedd system ar waith i nodi cleifion yr oedd angen cymorth arnynt i fwyta. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio hambyrddau coch⁸. Hysbyswyd yr holl staff, wrth drosglwyddo gwybodaeth iddynt, am unrhyw gymorth yr oedd ei angen ar gleifion, ac i hysbysu'r staff arlwygo yn ôl yr angen. Gwelsom hefyd nyrsys yn gofyn i gleifion newydd a oedd angen unrhyw gymorth arnynt, yn ogystal â staff yn rhoi cymorth i gleifion os oedd angen. Roedd llwybr maeth ar waith, sef yr offeryn sgrinio risg maeth i oedolion, a elwir yn WAASP.

Dangosodd trafodaethau gyda chleifion ac arsylwadau ar y ward fod dŵr yn cael ei ddarparu i bob claf yn ôl yr angen. Roedd jygiau dŵr glân ar bob bwrdd ac o fewn cyrraedd hawdd. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn cael eu llenwi yn ôl yr angen. Roedd gan lawer o gleifion ddiodydd personol mewn poteli gerllaw. Cynigiwyd diodydd poeth ar wahanol adegau yn ystod y dydd.

Roedd dewis o fwydlenni i gleifion ac roedd detholiad o fwydydd ar gael. Cafwyd adborth cymysg ynghylch ansawdd a maint y dognau ond dywedodd pob un o'r cleifion fod y bwyd yn boeth bob amser. Yn ystod arsylwadau ar yr amser bwyta roedd y rhan fwyaf o gleifion yn bwyta ac yn yfed yn annibynnol. Nid oedd unrhyw

⁸ Mae hambyrddau coch yn helpu nyrsys i nodi'n hawdd pwy sydd angen y mwyaf o anogaeth neu gymorth wrth fwyta. Mae'r hambwrdd coch hefyd yn dangos bod y claf ar siart cofnodi bwyd sy'n galluogi'r staff nyrsio i fonitro faint o fwyd sy'n cael ei fwyta.

hambyrddau coch i'w gweld, a dywedodd y staff nad oedd angen cymorth ar unrhyw un ar adeg yr arolygiad.

Cytunodd pob un o'r 13 o gleifion a ymatebodd eu bod yn cael amser i fwyta ar eu cyflymder eu hunain, a chytunodd wyth ohonynt fod staff yn eu helpu i fwyta os oedd angen cymorth arnynt, a nododd pump yr ateb 'amherthnasol'. Hefyd, cytunodd yr 13 o ymatebwyr fod dŵr ar gael iddynt ar y ward bob amser. Cytunodd wyth ohonynt fod staff yn eu helpu i yfed os oedd angen cymorth arnynt a nododd pump yr ateb 'amherthnasol'.

Rheoli meddyginiaethau

Edrychwyd ar yr un sampl o gofnodion gofal cleifion i wirio Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan (y siart) ac roeddent wedi'u cwblhau'n gywir, yn y rhan fwyaf o achosion. Roeddent yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan ragnodwyd a rhoddwyd cyffuriau, a chofnodwyd enwau a hunaniaethau pob claf ym mhob rhan o'r siartiau. Roedd yn amlwg beth oedd wedi cael ei roi i bob claf, ac nid oedd cleifion yn rhoi meddyginiaeth iddynt eu hunain, heblaw am inswlin. Lle na roddwyd meddyginiaeth ar bresgripsiwn, cofnodwyd y rheswm yn glir, yn y rhan fwyaf o achosion. Nodwyd y gwallau neu fylchau canlynol:

- Ar un siart nid oedd y cydbwysedd hylif wedi'i nodi pan oedd hylif mewnwythiennol wedi'i ragnodi
- Nid oedd pob achos o wrthod meddyginiaeth wedi'i ddogfennu
- Ni chofnodwyd ocsigen a oedd wedi'i ragnodi ar flaen y siart.

Roedd technegwyr fferyllfa ar gael drwy gydol y dydd ac roedd cwpwrdd stoc o gyffuriau ar gael y tu allan i oriau. Yn ogystal, byddai wardiau eraill yn trosglwyddo cyffuriau yn ôl yr angen.

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar gael ar-lein y gallai staff ei gyrchu. Roedd y storfa feddyginiaeth hefyd yn dangos bod yr holl gyffuriau, gan gynnwys cyffuriau a reolir, yn cael eu storio'n ddiogel fel a ganlyn:

- Roedd tymheredd yr oergell yn cael ei fonitro bob dydd
- Roedd llyfr y cyffuriau a reolir yn cael ei lofnodi a'i wirio bob dydd
- Roedd y fferyllydd yn cynnal gwiriadau stoc rheolaidd
- Roedd oergelloedd yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Roedd troli cludadwy yn cael ei ddefnyddio i ddsbarthu meddyginiaethau, a chanddo bysellbad i'w gadw'n ddiogel.

Câi'r troli dadebru ei wirio'n ddyddiol, ac roedd yr holl eitemau ar y troli yn gyfredol. Roedd profion priodol yn cael eu cynnal ar yr offer. Fodd bynnag, er bod y troli yn cael ei gadw yn yr un lle, oherwydd diffyg cyfleusterau storio ar y ward, roedd y peiriant electrocardiograff (ECG) yn rhwystro mynediad i'r troli ar adegau. Gallai'r offer hwn gael ei symud yn hawdd yn ôl yr angen, ond byddai'n dal i oedi mynediad i'r troli dadebru.

Rhodddwyd copi i ni o bolisi rheoli meddyginiaethau a chod meddyginiaethau'r bwrdd iechyd, y ddau ohonynt yn hwyr yn cael eu hadolygu. Dyddiad adolygu'r ddau oedd mis Mawrth 2021.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod cofnodion meddyginiaethau yn cael eu cofnodi'n llawn
- Bod y troli dadebru ar gael bob amser, yn ddirwysr ac mewn lleoliad cyfleus ar y ward
- Bod pob polisi, gan gynnwys y polisi rheoli meddyginiaethau a'r cod meddyginiaethau, yn cael eu diweddarau a'u hadolygu'n brydlon.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Cawsom wybod nad oedd unrhyw gleifion ar y ward a oedd yn destun trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid⁹ neu drefniadau amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed¹⁰. Ni châi asesiadau o alluedd eu cynnal, a byddai cleifion yn destun trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid dim ond os oedd hynny er eu lles pennaf.

⁹ Mae'r Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid yn rhan o Ddeddf Gallu Meddyliol 2005. Mae'r Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid ond yn berthnasol i'r unigolion hynny na allant wneud penderfyniadau ynghylch bod mewn ysbyty neu gartref gofal i gael gofal a thriniaeth. Gelwir hyn yn brin o alluedd.

¹⁰ Mae Polisi Cymru yn diffinio oedolyn sy'n agored i niwed fel: "Unigolyn sy'n 18 oed neu'n hŷn, y gallai fod angen gwasanaethau gofal cymunedol arno oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran neu salwch, ac sydd efallai'n methu gofalu amdano'i hun, neu sydd efallai'n methu amddiffyn ei hun rhag niwed sylweddol neu ecsbloetio difrifol."

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r rheoliadau ac yn gwybod sut i gyflawni'r gwaith papur perthnasol i gadw cleifion yn ddiogel. Roedd y staff hefyd yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dywedodd y staff hefyd y gallent weithredu fel eiriolwyr i gleifion pe bai angen.

Gwelsom dystiolaeth o'r hyfforddiant diogelu yr oedd staff wedi'i dderbyn hyd at lefel 2 a hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Y nyrs arweiniol ar gyfer gwasanaethau cardiothorasig oedd yr arweinydd diogelu ar gyfer y ward. Cawsom wybod hefyd fod yr addysgwyr nyrsio a ymwelai â'r ward yn rheoli hyfforddiant staff ar ddiogelu, gan gynnwys diwrnodau hyfforddi.

Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel, a'i bod yn hawdd siarad â staff os oeddent yn poeni am unrhyw beth. Hefyd, dywedodd pob teulu eu bod yn teimlo bod eu perthnasau yn ddiogel ar y ward. Gwelsom a chlywsom hefyd wybodaeth yn cael ei throsglwyddo gan yr uned gofal dwys cardiothorasig i'r ward yn egluro y gallai'r claf grwydro yn ystod y nos a chynigiwyd darparu gweithiwr cymorth gofal iechyd ychwanegol i helpu. Roedd yn gadarnhaol nodi bod staff yn gweithio'n dda ar draws y gwahanol ardaloedd ac yn ystyried budd pennaf y cleifion.

Roedd y sampl o gofnodion gofal cleifion y gwnaethom eu gwirio yn dangos bod asesiadau galluedd iechyd meddwl ar waith ar adeg derbyn y cleifion, ac ni nodwyd unrhyw broblemau galluedd meddyliol.

Rheoli gwaed

Dywedwyd wrthym am y protocol gwaedlif mawr sydd ar waith sy'n sicrhau bod cyn lleied â phosibl o gyfansoddion gwaed yn cael eu defnyddio, ac yn ôl yr angen yn unig, a hynny er mwyn atal gwastraff. Gwelsom hefyd fod arwyddion wedi'u harddangos yn ymwneud â'r protocol hwn. Roedd y staff yn cael eu cefnogi gan y tîm llawfeddygol ar y safle ac roedd yr addysgwyr ymarfer yn addysgu staff am y protocol hwn.

Gwelsom fod gwiriadau nodi cleifion a gwiriadau cyfansoddion gwaed yn cael eu cynnal ar bob cam o'r broses trallwysu. Cymerwyd dau sampl, ac yna gwiriwyd y sampl a groeswiriwyd yn erbyn y band arddwrn.

Roedd cynllun y cerdyn melyn¹¹ yn ei le i gofnodi digwyddiadau yn fewnol ac i gyrrff allanol. Yn ogystal â hynny, pe bai digwyddiad, byddai'r staff yn rhoi gwybod amdano i'r uwch nyrs ac yn ei gofnodi ar Datix. Cawsom wybod hefyd fod bron pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant ychwanegol yn ystod y 12 mis diwethaf ar drallwysiadau gwaed ac i ddiweddarau eu sgiliau mewnwythiennol a.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod gan y ward y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol cywir i ddiwallu anghenion y cleifion, megis teclynnau codi, offer monitro a chomodau. Roedd matresi pwysu hefyd ar gael ar y safle gyda'r pympiâu perthnasol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn credu bod y cyfarpar yn ddigonol. Roedd y cyfarpar a gedwir ar y ward yn cael ei wirio ac roedd yr holl waith cynnal a chadw a gwasanaethu yn gyfredol.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am ddiffygion yn yr offer a dywedon nhw nad oedd unrhyw oedi cyn trwsio eitemau. Roedd y cyfarpar a welsom wedi'i lanhau a dywedodd y staff fod y cyfarpar yn cael ei lanhau ar ôl ei ddefnyddio.

Cawsom wybod bod bron pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar y jaciau hofran, ar gyfer codi cleifion yn ddiogel, a phympiâu, megis pympiâu mewnwythiennol a ddefnyddir ar y ward.

Gofal effeithiol

Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol

Roedd pob un o'r 13 o gleifion a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif pan oeddent yn darparu gofal a thriniaeth, a'u bod yn darparu gofal pan oedd ei angen. Dywedodd pob aelod o staff a ymatebodd, namyn dau, fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer i wneud eu gwaith bob amser neu fel arfer, a dywedodd dau eu bod ganddynt weithiau. Dywedodd y mwyafrif fod yna ddigon o staff yn gweithio yn yr adran bob amser neu fel arfer, i wneud eu gwaith yn iawn. Dywedodd pob ymatebydd, namyn un,

¹¹ Cynllun y Cerdyn Melyn yw System y DU ar gyfer casglu a monitro gwybodaeth am adweithiau niweidiol a amheuir i bob meddyginiaeth, gan gynnwys brechlynnau, ffactorau gwaed ac imiwnoglobwlinau, meddyginiaethau llysieuol a meddyginiaethau homeopathig, a'r holl ddyfeisiau meddygol sydd ar gael ar farchnad y DU.

eu bod yn fodlon ag ansawdd y gofal yr oeddent yn ei roi i gleifion bob amser neu fel arfer, a dywedodd un ei fod yn fodlon weithiau.

Trafodwyd lefelau staffio'r staff nyrsio â'r uwch reolwyr a gwnaethant gadarnhau sawl aelod o staff ddylai fod ar ddyletswydd yn ystod y dydd a'r nos. Roedd y rotâu nyrsio ar gyfer y cyfnod rhwng 21 Tachwedd 2021 a 28 Chwefror 2022 yn cyd-fynd â'r lefelau staffio hyn. Câi staff banc a staff asiantaeth eu defnyddio i gyflenwi unrhyw fylchau a nodwyd. Roedd hysbysfwrdd yn swyddfa'r staff hefyd yn dangos faint o staff oedd ar ddyletswydd mewn gwirionedd a pha welyau oedd wedi'u dyrannu iddynt.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod modd ymdopi â'r lefelau staffio drwy gydweithio fel tîm, gwneud yn siŵr bod cleifion yn gyfforddus i ddechrau, ac yna dyrannu swyddi eraill fel stocio'r ward yn ddiweddarach. Roedd staff hefyd yn gallu dangos sut i gael mynediad at bolisïau a gweithdrefnau clinigol perthnasol, ac roedd ganddynt fynediad at ganllawiau cadw cofnodion i nyrsys gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)¹².

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn diwallu eu hanghenion mewn ffordd garedig, gwrtais a medrus er gwaethaf heriau sylweddol yn yr amgylchedd presennol.

Gwelsom hefyd fod gan y staff broc bach i'r cof a oedd wedi'i gynllunio i'w gadw wrth law ar gylch allwedd, i'w cynorthwyo yn eu rôl.

Gwnaethom sylwi fod bwrdd cipolwg ar ddiogelwch cleifion (Bwrdd Cipolwg ar Ddiogelwch Cleifion)¹³ ar goridor y ward, lle gallai unrhyw un oedd yn mynd heibio ei weld. Roedd yr wybodaeth yn cynnwys cyfenw'r claf, p'un a oedd ar y ward i gael triniaeth ddewisol, yn disgwyl cael ei drosglwyddo neu a oedd wedi'i ynysu. Roedd rhestr hefyd o gleifion yn cael eu derbyn, yn cael eu rhyddhau a'r rhestr theatr ddyddiol yn cael eu harddangos. Mae hyn yn amlwg yn effeithio ar

¹² Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw'r rheolydd ar gyfer proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cadw cofrestr o bob nyrs, bydwraig, nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol, a chydymaith nyrsio sy'n gymwys i ymarfer

¹³ Mae'r Bwrdd Cipolwg ar Ddiogelwch Cleifion yn ffordd glir a chyson o arddangos gwybodaeth am gleifion ar wardiau ysbytai.

gyfrinachedd cleifion. Er bod yr wybodaeth hon yn bwysig ac yn rhoi'r wybodaeth berthnasol y mae ei hangen ar staff, ni ddylai gael ei harddangos i bawb ei gweld.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth y gellir adnabod claf oddi wrthi, gan gynnwys gweithdrefnau, yn cael ei harddangos mewn mannau lle nad oes gan y cyhoedd na chleifion fynediad iddynt.

Sepsis¹⁴

Roedd tystiolaeth ar siart y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ¹⁵ bod poen yn cael ei fesur a'i werthuso a bod camau gweithredu ar waith i'w leddfu. Gwelsom un claf a gafodd ei adolygu gan y gwasanaeth poen aciwt ar ei ddiwrnod cyntaf ar ôl llawdriniaeth, a gydag asesiad a chynllun clir ar gyfer symud ymlaen. Gwelsom nyrsys hefyd yn holi cleifion am eu poen ac yn cynnig ei liniaru. Roedd pob claf i'w gweld wedi setlo ac yn gyfforddus. Roedd y sampl o gofnodion gofal cleifion a wiriwyd gennym yn dangos bod gan bob claf sgôr poen cyfredol. Gwelsom fod troli sepsis ar y ward yn cael ei wirio'n rheolaidd, a bod y protocol gofal chwe arwydd o sepsis (The Sepsis Six)¹⁶ wedi'i arddangos yn glir ar y troli.

Dywedwyd wrthym fod ymarferydd nyrsio a'r staff meddygol yn cael eu hysbysu pan fo claf yn septig a bod cynllun gofal a llwybr sepsis yn cael eu gweithredu pan fo achos o sepsis yn cael ei ganfod. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant mewnol ar sepsis gan yr addysgwyr ymarfer sydd ar gael ar y ward. Roedd yn ymddangos bod sepsis yn cael ei reoli yn unol â chanllawiau a phrotocolau lleol ac roedd yr uned gofal dwys cardiothorasig gerllaw yn darparu cymorth da.

¹⁴ Mae sepsis yn gyflwr sy'n peryglu bywyd sy'n digwydd pan fo ymateb y corff i haint yn achosi anaf i'w feinweoedd a'i organau ei hun.

¹⁵ Dull a ddatblygwyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon yw'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol, un sy'n gwella'r gwaith o ganfod ac ymateb i ddirywiad clinigol mewn cleifion sy'n oedolion. Mae hefyd yn elfen allweddol o ddiogelwch cleifion a gwella canlyniadau i gleifion.

¹⁶ 'The Sepsis Six' yw'r enw a roddir i becyn o therapïau meddygol sydd wedi'u cynllunio i leihau marwolaethau ymhlith cleifion â sepsis.

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o sepsis ac roeddent yn ymwybodol ohono a sut y byddent yn rheoli achosion o sepsis. Roeddent yn gallu disgrifio sbardunau a thriniaethau. Roedd un aelod newydd o staff y gwnaethom siarad ag ef yn gallu egluro unrhyw gamau gweithredu gofynnol a dangosodd sut y dylid defnyddio'r troli sepsis. Roedd hyn yn dangos ei fod yn amlwg wedi ymgyswrtu'n dda â'r ward

Cadw cofnodion

Gwnaethom wirio sampl o gofnodion gofal a chynlluniau gofal ar gyfer pedwar claf. Ar y cyfan, gwnaethom nodi bod y cofnodion a chynlluniau o safon dda. Gwelwyd tystiolaeth bod asesiadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r claf, ynghyd ag asesiadau da o boen a dulliau da o reoli poen. Roedd y nodiadau'n eglur ac yn hawdd eu darllen, wedi'u trefnu'n dda gyda'r llyfryn llwybr gofal integredig ar ddechrau'r ffeil, a sticeri cleifion ar bob taflen barhad, yn nhrefn y dyddiad. Roedd tystiolaeth hefyd o becyn dogfennau ffisiotherapi ac asesiadau'r tîm amlddisgyblaethol. Ar adegau, dywedodd y staff fod adegau pan nad oedd y cofnodion ar gael gan eu bod yn cael eu defnyddio gan aelod arall o staff. Gall defnyddio rhyw fath o gerdyn adnabod yn y troli, sy'n nodi lleoliad y cofnodion, ei gwneud yn haws i'w holrhain.

Roedd dogfennaeth dda ac eglur, gydag amserlenni, i gefnogi'r penderfyniadau a wnaed. Roedd y cofnodion yn gyfredol, wedi'u hysgrifennu'n glir a gwelwyd bod y nodiadau'n cael eu gwneud ar yr un pryd. Roeddent hefyd yn hawdd eu darllen. Roedd y llawysgrifen yng nghofnodion y claf yn eglur ac yn ddarllenadwy ac roedd pob cofnod wedi'i lofnodi a'i ddyddio, a'r amser y gwnaed y cofnod wedi'i nodi. Roedd tystiolaeth bod taflenni trosglwyddo nyrsio wedi'u hargraffu cyn pob shift ar gyfer y tîm cyfan. Byddai mynegai ar flaen y cofnodion gofal yn ei gwneud yn haws dod o hyd i wahanol adrannau.

Roedd yn amlwg bod anghenion cleifion yn cael eu hasesu'n brydlon ar adeg eu derbyn. Gwelsom hefyd fod cleifion yn cael eu hasesu cyn eu derbyn er mwyn sicrhau bod eitemau o offer a chymhorthion ar gael i'r claf. Roedd tystiolaeth i ddangos parhad gwybodaeth o asesiadau eraill yn ymwneud â chleifion a oedd yn cael eu trosglwyddo rhwng ysbytai.

Fodd bynnag, roedd y cofnodion a'r cynlluniau hyn yn cael eu storio mewn ffeiliau mewn troli agored nad oedd modd ei gloi. Er bod hyn yn golygu bod staff yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd, roedd hefyd yn golygu ei bod yn bosibl cael mynediad anawdurdodedig atynt. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, rhaid eu cadw'n ddiogel a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel a'u bod ar gael i'w defnyddio yn ôl yr angen.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y staff yn broffesiynol ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion. Roedd staff yn gadarnhaol yn eu hadborth am eu rheolwyr uniongyrchol ac uwch reolwyr.

Gwelsom dystiolaeth o waith tîm a chefnogaeth dda, gan gynnwys rhwng timau nyrsio a thimau meddygol.

Dyweddodd staff hefyd eu bod yn ymwybodol o'r strwythur uwch-reolwyr o fewn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch reolwyr a staff yn effeithiol ar y cyfan.

Yn gyffredinol, roedd yr adborth gan y staff yn nodi eu bod yn hapus gyda lefel y cymorth ac ymgysylltiad gan eu rheolwr llinell uniongyrchol a chan uwch-reolwyr yn y gwasanaeth.

Canfuom fod y rheolaeth a'r arweinyddiaeth â ffocws ac yn gadarn.

Cyflwynodd AGIC arolwg ar-lein i gael barn y staff ar y ward gardiothorasig yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o 16 o ymatebion gan staff yr ysbyty. Nid atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau. Cawsom ymatebion gan 13 o aelodau o staff nyrsio, dau weithiwr cymorth gofal iechyd a gweinyddwr. Dywedodd tri aelod o staff eu bod yn gweithio ar draws safleoedd Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Ysbyty Athrofaol Cymru.

Ar y cyfan, nododd y staff brofiadau cadarnhaol yn y mwyafrif o'r ymatebion, gyda thuag 80% o staff yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio. Roeddent hefyd yn cytuno y byddent yn hapus i dderbyn gofal o'r safon a ddarperir gan eu sefydliad neu'n hapus i'w ffrindiau neu deulu ei dderbyn.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwnaethom siarad ag uwch aelodau o staff a dywedon nhw fod naill ai nyrs arweiniol neu uwch nyrs y gwasanaethau cardiothorasig yn bresennol ar y ward ar o leiaf dri diwrnod bob wythnos. Gwnaeth y staff gadarnhau hyn hefyd a nodi

bod yr aelodau hyn o staff yn ffonio'n rheolaidd bob dydd gan i wirio'r sefyllfa o ran llesiant a rheolaeth y ward. Cawsom wybod fod cyfarfodydd ar-lein yn cael eu cynnal gyda phrif nyrs y ward bob bore Llun. Roedd cymorth ar gael hefyd gan y llawfeddyg arweiniol a'r timau clinigol ac roedd y staff yn yr uned gofal dwys cardiothorasig a'r ward gardiothorasig yn cydweithio'n dda. Disgrifiwyd y system o rannu gwybodaeth gydag aelodau o staff a rhwng staff a rheolwyr.

Gwnaethom ofyn cyfres o gwestiynau i staff yn yr holiadur.

- Dywedodd pob un o'r 16 aelod o staff eu bod yn gweld canllawiau newydd, rhybuddion diogelwch cleifion a rhybuddion dyfeisiau meddygol yn rheolaidd, a'u bod wedi'u sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i'w gweithredu ac i lynu wrthynt.
- Dywedodd deuddeg o'r 15 a atebodd y cwestiwn hwn eu bod wedi cael gwybod am y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig (Ebrill 2015) a dywedodd tri nad oeddent wedi'u hysbysu.
- Dywedodd pedwar ar ddeg o ymatebwyr eu bod yn gallu bodloni'r holl ofynion gwrthdrawiadol ar eu hamser yn y gwaith bob amser neu fel arfer, a dywedodd dau eu bod yn gallu gwneud hynny weithiau.
- Dywedodd tri ar ddeg o ymatebwyr eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwaith eu tîm / adran bob amser neu fel arfer, dywedodd dau y gallent wneud hynny weithiau, a nododd un yr ateb 'amherthnasol'.
- Dywedodd deg ymatebydd eu bod ynghlwm wrth benderfynu ar newidiadau a gyflwynir sy'n effeithio ar eu maes gwaith / tîm / adran bob amser neu fel arfer, dywedodd pump eu bod weithiau a nododd un yr ateb 'amherthnasol'.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Dywedwyd wrthym fod gan y ward drosiant staff isel yn hanesyddol a bod salwch yn amrywio, ond bu mwy o achosion o salwch yn ystod y pandemig, ac roedd rhai aelodau o staff yn dioddef yr effeithiau am gyfnodau hir o amser.


Roedd y ward yn hysbysebu am ddwy ddirprwy brif nyrs ward (band 6) ar adeg yr arolygiad. Disgrifiwyd y broses o gyflenwi unrhyw ddiffygion staffio, gan gynnwys dulliau ar-lein a goramser estynedig. Fodd bynnag, roedd uwch aelodau o staff yn ymwybodol bod y staff wedi bod yn gweithio sifftiau ychwanegol ers cryn amser, ers dechrau'r pandemig, a bod angen iddynt ofalu am gynnal llesiant staff.

Roedd y staff uwch y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod y sefydliad yn caniatáu ar gyfer nifer priodol o staff ar ddyletswydd ar gyfer nifer y cleifion. Caiff materion staffio eu rheoli yn ddyddiol er mwyn rheoli'r ward ar sail gofynion y dyfodol. Roeddent yn gweithio gyda'r tîm clinigol fel y gellid diwallu anghenion y ward. Dywedodd yr uwch aelodau o staff eu bod yn ffodus o gael tîm amlddisgyblaethol.

Digwyddiadau

Atebodd pymtheg o staff gwestiynau am ddigwyddiadau a gwallau. Nododd un ymatebwr ei fod, yn ystod y mis diwethaf, wedi gweld gwallau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau yn effeithio ar staff, a dywedodd dau ymatebydd eu bod wedi gweld gwallau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau yn effeithio ar gleifion. Y tro diwethaf iddynt weld gwall, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad, dywedodd naw o'r ymatebwyr eu bod nhw neu gydweithiwr wedi adrodd amdano. Dywedodd un nad oedd wedi adrodd amdano, a nododd pump yr ateb 'amherthnasol'.

Dywedodd pob un o'r 15 o ymatebwyr, pe baent yn pryderu am arfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i adrodd amdano, dywedodd 14 eu bod yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am arfer clinigol anniogel, a nododd un nad oedd yn gwybod. Dywedodd tri ar ddeg o ymatebwyr eu bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon, dywedodd un nad oedd yn hyderus, a nododd un nad oedd yn gwybod.




Gwnaeth un aelod o staff y sylwadau canlynol:

“Dydyn ni byth yn mynd i unrhyw un o’r cyfarfodydd sy’n ymdrin â’r materion hyn”

Hyfforddiant

Gwnaethom ofyn cyfres o gwestiynau i staff yn yr holiaduron yn ymwneud â hyfforddiant, dysgu a datblygiad, a dangosir eu hymatebion isod:



Dywedodd staff wrthym eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant 'arall' a ganlyn:

“Monitro cardiaidd”

“Hyfforddiant cylchdroadau cardioleg: hyfforddiant rhythm, hyfforddiant AutoPulse, hyfforddiant PACER”

“Gofal clwyfau”

“Anaffylacsis”

“Defnydd diogel o inswlin”

Cawsom sylwadau ar hyfforddiant a fyddai o gymorth i staff, a dangosir rhai ohonynt isod:

“Gweithdy gwythïen-bigiadau”

“Diwrnodau astudio ar ddiabetes, rheoli salwch, mentora myfyrwyr mewn perthynas â'r protocol myfyrwyr newydd”

Dyweddod pob un o'r ymatebwyr fod hyfforddiant yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol bob amser neu fel arfer. Dywedodd pymtheg o ymatebwyr fod hyfforddiant bob amser, neu fel arfer yn eu helpu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol ac i ddarparu profiad gwell i gleifion, a nododd un yr ateb 'amherthnasol'.

Cadwyd cofnodion o hyfforddiant gorfodol ar Gofnod Staff Electronig y GIG a lluniwyd adroddiadau ar gyfer yr aelodau uwch o staff er mwyn iddynt reoli cwblhau'r hyfforddiant hwn. Cawsom wybod fod cydymffurfedd â gofynion cwblhau hyfforddiant gorfodol o dan 60% ar adeg yr arolygiad, yn rhannol o ganlyniad i absenoldebau staff. Ategwyd hyn gan ffigurau cydymffurfedd, ar lefel aelodau unigol o staff, a oedd yn amrywio rhwng sero y cant a 95 y cant.

Dangoswyd copi i ni hefyd o'r rhaglen gynefino ar gyfer staff newydd i'r ward, a oedd yn dangos y cyflawnwyd hyfforddiant gorfodol yn ystod y cyfnod cynefino hwn. Am gyfnod o bedair wythnos, ystyriwyd bod staff newydd yn staff ychwanegol a dyrannwyd mentor iddynt. Roedd hyn hefyd yn wir yn achos myfyrwyr nyrsio ar y ward a dywedwyd wrthym fod archwiliadau addysgol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd yr addysgwyr ymarfer hefyd ar gael i gefnogi. Yn ogystal, roedd cwblhau hyfforddiant yn rhan o'r broses arfarnu flynyddol.

Gwnaethom nodi hefyd fod hysbysfyrdau staff a myfyrwyr yn cyfeirio at fentora, ac roedd nodiadau atgoffa staff am ddyddiadau hyfforddiant i'w gweld ar hysbysfwrdd yn swyddfa'r nyrsys.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn cytuno eu bod yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant ac roedd gan y ward addysgwr ymarfer i helpu gyda hyn. Câi hyfforddiant ffurfiol â thâl, a ariennir gan y bwrdd iechyd, ei annog hefyd.

Datblygiad proffesiynol

Dyweddod wyth ymatebydd eu bod wedi cael adolygiad neu arfarniad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf a dywedodd wyth nad oeddent. Dywedodd chwech eu bod wedi cael goruchwyliaeth glinigol yn ystod y 12 mis diwethaf, dywedodd naw nad oeddent, ac ni allai un gofio. Dywedodd naw bod eu hanghenion dysgu neu eu hanghenion datblygu wedi'u nodi, a dywedodd saith nad oeddent. Dywedodd tri ar ddeg bod eu rheolwr yn eu cefnogi i dderbyn hyfforddiant neu i ddilyn cyrsiau datblygu a dywedodd tri nad oeddent yn cael eu cefnogi i wneud hynny. Dywedodd pob un o'r wyth a atebodd y cwestiwn hwn eu bod wedi cael cyfnod mentora neu diwtora priodol wrth ddechrau yn eu rôl. Roedd saith allan o'r wyth o ymatebwyr o'r farn bod eu cyfnod mentora a thiwtora yn ddigon hir. Er y dywedwyd wrthym fod y prif nyrs a oedd newydd ei phenodi yn goruchwyllo'r broses arfarnu gyfan, mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion datblygu staff yn cael eu diwallu.

Cydraddoldeb

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, y gwnaethom ei weld yn swyddfa'r nyrsys ar y ward. Roedd yn ymddangos bod y staff yn gweithio'n dda fel tîm ac i weld yn hapus a bodlon wrth eu gwaith. Fodd bynnag, ticiodd tri allan o'r pymtheg aelod o staff a atebodd y cwestiwn yn gofyn a oeddent wedi dioddef camwahaniaethu yn y gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, flwch heblaw am yr un yn nodi nad oeddent wedi dioddef gwahaniaethu¹⁷. Cytunodd deuddeg o'r ymatebwyr fod gan staff fynediad teg a chyfartal at gyfleoedd yn y gweithle, roedd un yn anghytuno, a nododd dau yr ateb 'mae'n well gennyf beidio â dweud'. Cytunodd pedwar ar ddeg o ymatebwyr fod eu gweithle yn gefnogol i gydraddoldeb ac amrywiaeth, a nododd un yr ateb 'mae'n well gennyf beidio â dweud'. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau ar waith i ganiatáu i unrhyw aelod o staff adrodd ar unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol.


Iechyd a Lles

Cawsom wybod y byddai staff yn cael eu cyfeirio at wasanaethau a gwybodaeth am lesiant gweithwyr. Dywedodd uwch staff hefyd fod y tîm iechyd galwedigaethol wedi cael ei lethu gan atgyfeiriadau yn ystod y pandemig, mai apwyntiadau dilynol dros y ffôn a gynhelir yn bennaf ar hyn o bryd, a bod oedi.


Yn ogystal â'r pandemig, cawsom wybod hefyd y bu'n her i staff symud i Ysbyty Athrofaol Llandochoau, a bod staff wedi ymateb i'r her wrth i rai ohonynt ddysgu i yrru er mwyn eu galluogi i weithio yn yr ysbyty. Gwnaethant siarad hefyd am yr ansicrwydd ynghylch pryd y byddent yn dychwelyd i Ysbyty Athrofaol Cymru. Dywedodd yr uwch reolwyr mai symud dros dro oedd y bwriad erioed, ond nad oedd dyddiad pendant ar gyfer dychwelyd wedi'i bennu eto.


Atebodd pymtheg aelod o staff gwestiynau ynghylch iechyd a llesiant yn y gwaith fel a ganlyn:

¹⁷ Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, hefyd 'arall' neu 'mae'n well gennyf beidio â dweud'.



Y sefydliad






Dywedodd un ymatebydd:

“Dwi'n hapus iawn gyda'r gofal sy'n cael ei ddarparu yn fy maes clinigol”

Rheolwr Uniongyrchol

Gwnaeth un aelod o staff y sylwadau canlynol:

“Mae fy rheolwr llinell uniongyrchol yn gefnogol iawn ac, yn yr un modd, fy uwch nyrsys a'm nyrsys arwain.”




Uwch-reolwyr

Gwnaeth staff sylwadau am uwch reolwyr, a dangosir rhai ohonynt isod:

“Dydyn ni byth yn gweld staff corfforaethol y Bwrdd Iechyd Prifysgol ar lefel ward”

“Anaml y bydd uwch reolwyr yn dod i'r wardiau, a phan maen nhw'n dod, dydyn nhw ddim yn siarad â'r nyrsys, dim ond rheolwyr y wardiau felly mae'n anodd gwybod a ydyn nhw'n ystyried ein barn/adborth”



Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau'r canlynol:

- Bod arfarniadau perfformiad ar gyfer pob aelod o staff yn cael eu cyflawni'n brydlon, a bod y cydymffurfedd hwn yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion o ran cyflawni eu dyletswyddau a chynnal eu datblygiad
- Bod staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol mewn modd amserol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y prosesau canlynol ar waith:

- Caniatáu i unrhyw aelod o staff roi gwybod am unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol
- Sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac na fydd unrhyw achosion o gamwahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, yng ngoleuni ymatebion staff i'r arolwg, fod unrhyw wallau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn cael eu trafod yn llawn gyda'r staff, yn ddelfrydol yn ystod cyfarfodydd ward, a bod hyn yn cael ei ddogfennu.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Mae amrywiaeth o ddulliau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad un ward trylwyr: rydym yn cynnal adolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad aml-ward: rydym yn ymweld â nifer o wardiau ac adrannau ar un safle ysbyty i nodi materion neu themâu a allai fod yn berthnasol i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad aml-ysbyty: rydym yn ymweld â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd i asesu llywodraethu a darpariaeth gwasanaethau cyfan

Mae arolygiadau o ysbytai yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob tro yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd oherwydd bod hyn yn ein caniatáu i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae ysbytai'n bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill pan fo hynny'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---------------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Ysbyty: Insert name

Ward/adran: Insert name

Dyddiadau'r arolygiad: Insert date

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|-------|-------------------------------|------------------|----------|
| Ni chyflwynwyd unrhyw ofynion o ran sicrwydd i'w gweithredu ar unwaith | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Athrofaol Llandochau

Ward/adran: Ward Llawfeddygaeth Cardiothorasig, Ward 6 y Gorllewin

Dyddiadau'r arolygiad: 1 a 2 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---------------------------|--|---|---|
| Ansawdd profiad y claf | | | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn gwella cynllun y ward, fel nad yw cleifion gwrywaidd yn cerdded trwy ardaloedd ar gyfer cleifion benywaidd, er mwyn sicrhau bod urddas pob claf yn cael ei gynnal. | Safon 4.1 Gofal ag urddas | <ul style="list-style-type: none"> Cyflawni' holl gamau gweithredu wrth drosglwyddo i Ysbyty Athrofaol Llandochau i wahanu cilfach drwy osod wal rannu. Fodd bynnag, nid oes llawer o opsiynau yn yr amgylchedd presennol. Rhoi asesiad risg ar waith er mwyn amlygu'r mesurau a gymerir i gynnal preifatrwydd/ urddas cleifion tra'u bod mewn amgylchedd dros dro cyn iddynt ddychwelyd i Ysbyty Athrofaol Cymru. | <p>Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth Cardiothorasig</p> <p>Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth Cardiothorasig</p> <p>Y Bwrdd Clinigol Arbenigol</p> <p>Tîm Gweithredol Bwrdd Iechyd</p> | <p>Cyflawnwyd ym mis Hydref 2020</p> <p>Cyflawnwyd ym mis Hydref 2020, yn cael ei asesu'n barhaus</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---------------------------|---|--|--|
| | | <ul style="list-style-type: none"> Sefydlu cynllun/amserlen i ddychwelyd y Gwasanaethau Llawfeddygol Cardiothorasig yn ôl i Ysbyty Athrofaol Cymru er mwyn lleihau'r risgiau o ganlyniad i wahanu'r gwasanaethau cardiothorasig a chyfyngiadau'r amgylchedd. | Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Yn mynd rhagddo |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn darparu cyfleusterau storio ychwanegol er mwyn lleihau'r annibendod ar y ward yn sylweddol. | Safon 4.1 Gofal ag urddas | <ul style="list-style-type: none"> Cyflawni'r holl gamau gweithredu wrth drosglwyddo i Ysbyty Athrofaol Llandochau er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r storfeydd er mwyn sicrhau y caiff offer sy'n hanfodol i ddarparu llawdriniaeth Gardiothorasig ei storio'n ddiogel. Fodd bynnag nid oes llawer o opsiynau yn yr amgylchedd presennol. Gweithredu gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod offer yn cael ei dacluso a'i storio'n ddiogel yn barhaus. Sefydlu cynllun/amserlen i ddychwelyd y Gwasanaethau | Prif nyrs a thîm y ward Prif nyrs a thîm y ward Y Bwrdd Clinigol Arbenigol Tîm Gweithredol Bwrdd Iechyd | Cyflawnwyd ym mis Hydref 2020, yn parhau Gweithredwyd ym mis Ebrill 2022, yn parhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---------------------------------|--|---------------------------------|--|
| | | Llawfeddygol Cardiothorasig yn ôl i Ysbyty Athrofaol Cymru er mwyn lleihau'r risgiau o ganlyniad i wahanu'r gwasanaethau cardiothorasig a chyfyngiadau'r amgylchedd. | Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Ym mynd rhagddo |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir mesurau ar waith i alluogi pob claf i ddeall y driniaeth a'r gofal a ddarperir yn llawn. | Safon 4.2 Gwybodaeth i gleifion | <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r llyfrynnau gwybodaeth sy'n bodoli. • Adolygu'r llyfrynnau gwybodaeth a ddarperir mewn clinigau cyn asesu wrth baratoi ar gyfer cael eu derbyn i'r ysbyty/llawdriniaeth. • Dylai staff wardiau asesu gwybodaeth cleifion wrth iddynt gael eu derbyn ac ar ôl eu derbyn er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y wybodaeth lawn am ofal a thriniaeth. • Sicrhau bod gwybodaeth rhyddhau yn cael ei darparu wrth i gleifion gael eu rhyddhau o'r ysbyty, a bod manylion cyswllt ar gael er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth ar ôl cael eu rhyddhau. | Prif nyrs y ward a'r tîm nyrsio | Cyflawnwyd ym mis Mawrth 2022, ac yn cael ei adolygu'n barhaus |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--|--|---|--|
| <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig ar arddangosiadau ac arwyddion yn Gymraeg, ar sail gyfartal â'r Saesneg.</p> | <p>Safon 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol</p> | <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarperir i gleifion ar bapur yn ddwyieithog. Gosod arwyddion dwyieithog dros dro tra bod y gwasanaeth yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau. Sicrhau y caiff y gofyniad am arwyddion dwyieithog ei ymgorffori mewn cynlluniau ar gyfer dychwelyd y gwasanaethau i Ysbyty Athrofaol Cymru. | <p>Prif nyrs y ward</p> <p>Prif nyrs y ward / Derbynnydd y ward</p> <p>Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth Cardiothorasig</p> | <p>Cyflawnwyd ym mis Mawrth 2022</p> <p>Yn mynd rhagddo ym mis Ebrill 2022</p> <p>Yn mynd rhagddo wrth ddisgwyl dyddiad / amserlen cwblhau cynllun y Bwrdd Iechyd Prifysgol i ddychwelyd y gwasanaethau i Ysbyty Athrofaol Cymru</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--------------------------------------|---|---|--|
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hysbysfwrdd Pwy yw pwy yn cael ei osod ar y ward. | Safon 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | <ul style="list-style-type: none"> Bu newidiadau sylweddol yn nhîm Ward 6 y Gorllewin o ganlyniad i'w adleoli dros dro i Ward 6 y Gorllewin. Mae prif nyrs/tîm y ward ar hyn o bryd yn y broses o ddiweddarau gwybodaeth a lluniau'r tîm er mwyn ailwampio'r bwrdd Pwy yw pwy. | Prif nyrs y ward | Mis Mehefin 2022 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun y ward yn cael ei wella er mwyn sicrhau bod yr holl gleifion ar y ward yn weladwy. | Safon 5.1 Mynediad amserol | <ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd yr holl gamau gweithredu wrth drosglwyddo i Ysbyty Athrofaol Llandochoau er mwyn sicrhau bod yr holl gleifion mor weladwy â phosibl o fewn cyfyngiadau cynllun y ward. Fodd bynnag, nid oes llawer o opsiynau yn yr amgylchedd presennol. Sefydlu cynllun/amserlen ar gyfer dychwelyd y Gwasanaethau Llawfeddygol Cardiothorasig yn ôl i Ysbyty Athrofaol Cymru er mwyn lleihau'r risgiau o ganlyniad i wahanu'r gwasanaethau cardiothorasig a chyfyngiadau'r amgylchedd. | Prif nyrs y ward/ timau'r uwch nyrsys / nyrsys arweiniol Y Tîm Gweithredol | Cyflawnwyd ym mis Hydref 2020, yn cael ei asesu'n barhaus Yn mynd rhagddo |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|----------------------------|---|------------------|--|
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drysau mynediad a drysau allanfeydd yn ddiogel ac yn gweithio'n dda. | Safon Mynediad amserol 5.1 | <ul style="list-style-type: none"> Nodir unrhyw faterion yn ymwneud â drysau ar unwaith ac maent yn cael eu trwsio. Gwaith monitro parhaus i fynd i'r afael â'r angen am ragor o fesurau diogelwch. | Prif nyrs y ward | Cyflawnwyd ym mis Ebrill 2022, yn parhau |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael mynediad ychwanegol at offer sy'n gydnaws â'r rhyngwyd er mwyn eu galluogi i gysylltu â'u perthnasau neu ofalwyr. | Safon Hawliau pobl 6.2 | <ul style="list-style-type: none"> Daethpwyd o hyd i iPad y ward, ac mae ar gael bellach i ddiwallu anghenion y cleifion Bydd pob aelod o staff yn cael ei hysbysu am yr offer sydd ar gael i helpu cleifion i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a ffrindiau tra'u bod yn yr ysbyty. Caiff yr wybodaeth ddiweddaraf ei rhoi i staff o ran pwysigrwydd hysbysu cleifion am yr offer sydd ar gael, gan gynnwys iPad a ffôn ward diwifr, ac annog y cleifion i ddod â'u llechi/ffonau eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud hynny hefyd. | Prif nyrs y ward | Cyflawnwyd ym mis Mawrth 2022, yn bprhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|------------------------------|--|
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am sut i wneud cwyn yn cael ei harddangos ar y ward a'i bod ar gael i'r cleifion. | Safon 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | <ul style="list-style-type: none"> Mae ardal sy'n cynnwys yr wybodaeth hon wedi'i chreu, ac mae'r wybodaeth yn cael ei harddangos. | Prif nyrs y ward | Cyflawnwyd ym mis Ebrill 2022 |
| Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol | | | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cypwrddau yn yr olchfa (cwpwrdd melyn ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)) ay'n storio hylifau glanhau wedi'u cloi i atal mynediad iddynt, neu fod eitemau a allai achosi niwed pe baent yn cael eu llyncu yn cael eu tynnu o'r cwpwrdd. | Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | <ul style="list-style-type: none"> Adolygwyd yr ardal ar unwaith i sicrhau bod yr ardal yn cael ei dacluso a bod yr holl hylifau glanhau wedi'u storio'n briodol mewn cwpwrdd o dan glo ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd. Sicrhwyd bod yr holl staff yn gwybod am bwysigrwydd storio hylifau glanhau yn ddiogel yn y cwpwrdd dynodedig ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd. Mae'r amgylchedd yn cael ei wirio'n ddyddiol er mwyn sicrhau bod gwaith tacluso'n digwydd yn barhaus a bod hylifau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel. | Prif nyrs y ward/ tîm y ward | Cyflawnwyd ym mis Ebrill 2022, yn parhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|--|--|---|
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod canlyniadau archwiliadau'n cael eu harddangos ar y ward er mwyn rhoi hyder i gleifion a staff ynghylch glendid y ward. | Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi | <ul style="list-style-type: none"> Mae ffrâm addas i arddangos yr wybodaeth hon yn cael ei chyrru ar hyn o bryd er mwyn arddangos canlyniadau archwiliadau i'r cleifion a'r staff. | Prif nyrs y ward | Mis Mai 2022 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n llawn. | Safon 2.6 Rheoli meddyginiaethau | <ul style="list-style-type: none"> Dylid rhannu adroddiad AGIC â phob aelod o staff er mwyn rhannu dysgu. Atgoffwyd pob aelod o staff i gwblhau tudalen gefn y siartiau meddyginiaeth yn llawn a manwl gywir, a nodi'r rhesymau dros adael unrhyw wybodaeth allan. Yn unol â'r cod meddyginiaethau. Bydd prif nyrs y ward / yr Addysgwr Ymarfer yn cynnal hapwiriadau / archwiliadau i fonitro cydymffurfedd. | Prif nyrs y ward / yr Addysgwr Ymarfer | Cyflawnwyd ym mis Ebrill 2022, yn cael ei adolygu/ archwilio yn barhaus |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y troli dadebru ar gael bob amser, yn ddirwystr ac mewn lleoliad cyfleus ar y ward. | Safon 2.6 Rheoli meddyginiaethau | <ul style="list-style-type: none"> Cafodd yr ardal ei hadolygu ar unwaith i sicrhau ei bod yn daclus. Daethpwyd o hyd i leoliad arall ar gyfer peiriannau arsylwi/ | Prif nyrs y ward/ y tîm nyrsio | Cyflawnwyd ym mis Ebrill 2022, yn parhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---|---|---|--|
| | | <p>electrocardiograff (ECG) a oedd yn cael eu storio gydag offer brys.</p> <ul style="list-style-type: none"> Lluniwyd arwyddion i atgoffa staff i gadw'r ardal yn glir bob amser. Sefydlu cynllun/ amserlen ar gyfer dychwelyd y Gwasanaethau Llawfeddygol Cardiothorasig i Ysbyty Athrofaol Cymru er mwyn lleihau'r risgiau o ganlyniad i wahanu'r gwasanaethau cardiothorasig a chyfyngiadau'r amgylchedd. | <p>Bwrdd Clinigol Gwasanaethau Arbenigol</p> <p>Tîm Gweithredol</p> | <p>Yn parhau</p> |
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob polisi, gan gynnwys y polisi rheoli meddyginiaethau a'r cod meddyginiaethau, yn cael eu diweddarau a'u hadolygu'n brydlon.</p> | <p>Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau^u</p> | <ul style="list-style-type: none"> Hysbyswyd pob aelod o staff am y diweddariad i'r polisi meddyginiaethau ac fe'u hatgoffwyd i ddefnyddio mewnwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro er mwyn cefnogi symudiad tuag at drefn ddi-bapur yn y sefydliad. Rhoddir cefnogaeth/arweiniad parhaus i staff mewn perthynas â | <p>Prif nyrs y ward ac Addysgwyr Ymarfer</p> | <p>Cyflawnwyd ym mis Ebrill, yn cael ei asesu'n barhaus/gwybodaeth yn cael ei rhaeadru</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|------------------|-------------------------------|
| | | newidiadau i weithdrefnau polisïau drwy gyfnod cynefino staff a chymorth parhaus a ddarperir gan addysgwyr ymarfer Cardiothorasig. | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth adnabyddadwy'r claf, gan gynnwys gweithdrefnau, yn cael ei harddangos mewn mannau lle nad oes gan y cyhoedd na chleifion fynediad iddynt. | Safon 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol | <ul style="list-style-type: none"> • Cymerwyd camau ar unwaith a chafodd yr holl wybodaeth adnabyddadwy ei thynnu a'i hadleoli i fan cyfrinachol lle nad yw cleifion yn cael mynd. | Prif nyrs y ward | Cyflawnwyd ym mis Ebrill 2022 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel a'u bod ar gael i'w defnyddio yn ôl yr angen. | Safon 3.5 Cadw cofnodion | <ul style="list-style-type: none"> • Cymerwyd camau ar unwaith ac archebwyd troli y gellir ei gloi. Yn disgwyl am ddyddiad dosbarthu. | Prif nyrs y ward | Mis Mai 2022 |
| Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth | | | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod staff yn cyflawni eu hyfforddiant gorfodol yn brydlon. | Safon 7.1 Y gweithlu | <ul style="list-style-type: none"> • Mae prif nyrs newydd y ward yn y broses o goladu cofnodion hyfforddiant cywir. • Caiff staff eu hatgoffa i annog/ailadrodd pwysigrwydd | Prif nyrs y ward | Mehefin 2022 Yn parhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|-----------------------------|---|-------------------------|---|
| | | <p>sicrhau cydymffurfedd o 100% cyn y broses arfarnu flynyddol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Anogir staff i ddefnyddio amser segur ar y ward i ymgymryd â hyfforddiant sy'n weddill. Bydd yr Addysgwr Ymarfer yn gweithio'n agos gyda phrif nyrs y ward i gefnogi cydymffurfedd ac ymgorffori hyfforddiant yn y cyfnod sefydlu staff newydd. | | |
| <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod arfarniadau yn cael eu cwblhau'n llawn ar gyfer pob aelod o staff, yn brydlon, a bod y cydymffurfedd hwn yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion o ran cyflawni eu dyletswyddau a chynnal eu datblygiad</p> | <p>Safon 7.1 Y gweithlu</p> | <ul style="list-style-type: none"> Yn dilyn penodiad Nyrsys Staff Band 6 newydd a dirprwy brif nyrs y ward, cyflwynodd prif nyrs y ward gynllun i rannu rolau/cyfrifoldebau drwy system VBA er mwyn gwella cydymffurfedd ag arfarniadau. Atgoffwyd y staff o bwysigrwydd yr arfarniadau blynyddol, a rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf iddynt mewn perthynas â'r broses VBA | <p>Prif nyrs y ward</p> | <p>Cyflawnwyd ym mis Ebrill 2022</p> <p>Yn parhau</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|-----------------------------|---|-------------------------|--|
| | | <p>newydd wrth baratoi ar gyfer yr arfarniad.</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd yr Addysgwr Ymarfer yn gweithio gyda phrif nyrs y ward i gynnal arfarniadau dechreuwyd newydd yn ystod y cyfnod sefydlu. | | |
| <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau ar waith i ganiatáu i unrhyw aelod o staff adrodd ar unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol.</p> | <p>Safon 7.1 Y gweithlu</p> | <ul style="list-style-type: none"> Mae diwylliant gwaith agored a thryloyw wedi'i annog yn frwd ar Ward 6 y Gorllewin. Mae hyn wedi cael ei ailadrodd i staff yn ystod sesiynau briffio diogelwch y ward ac ati. Rhodddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i staff am y broses o uwchgyfeirio pryderon, er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn cael gwybod am y broses gywir. Sicrheir bod staff yn ymwybodol o sut i godi pryder drwy'r Polisi Rhyddid i Siarad. | <p>Prif nyrs y ward</p> | <p>Cyflawnwyd ym mis Mawrth 2022</p> <p>Yn parhau.</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|-----------------------------|---|---|---|
| <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod prosesau ar waith i sicrhau bod y staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal, ac na fydd unrhyw achosion o gamwahaniaethu yn cael eu goddef ac y cymerir camau priodol.</p> | <p>Safon 7.1 Y gweithlu</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau Craidd y Bwrdd Iechyd Prifysgol ar y ward. • Datblygwyd rota trawsgyflenwi i sicrhau tegwch i staff sy'n cael eu hanfon i weithio mewn meysydd clinigol eraill. • Anogir staff i godi unrhyw bryderon neu brofiadau fel y gellir darparu cymorth ar unwaith. | | |
| <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, yng ngoleuni ymatebion staff i'r arolwg, bod unrhyw wallau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn cael eu trafod yn llawn gyda'r staff, yn ddelfrydol yn ystod cyfarfodydd ward, a bod hyn yn cael ei ddogfennu.</p> | <p>Safon 7.1 Y gweithlu</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Bydd prif nyrs y ward yn cynnal trafodaethau gyda'r dirprwy brif nyrs/ uwch nyrsys band 6 i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rhannu pryderon a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am unrhyw bryderon, gwallau/adborth. | <p>Prif nyrs y ward Y Nyrs â gofal Yr Addysgwyr Ymarfer</p> | <p>Cyflawnwyd ym mis Mawrth 2022, yn parhau</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-----------------------------|------------------|---|------------------|----------|
| | | <ul style="list-style-type: none"> Sicrheir bod hyn yn cael ei amlygu yn ystod sesiynau briffio diogelwch y ward ac yn cael ei fonitro. Caiff staff eu diweddarau am y polisïau allweddol sydd ar gael i reoli gwallau / achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd / digwyddiadau clinigol er mwyn sicrhau y caiff y broses uwchgyfeirio gywir ei ddilyn. Bydd yr Addysgwr Ymarfer yn gweithio'n agos gyda phrif nyrs y ward er mwyn cefnogi'r broses hon a darparu'r lefel ofynnol o hyfforddiant cymorth i'r staff sydd ynghlwm wrthi. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Y nyrs arweiniol, Ceri Phillips ynghyd â phrif nyrs y ward, Bethan Price, a Thîm y Gyfarwyddiaeth Cardiothorasiog

Dyddiad: 18/4/2022